# PERTHYN

Tachwedd 2025 Rhifyn 342







*'O Dad, yn deulu dedwydd – y deuwn*
*Â diolch o'r newydd;*
*Cans o'th law y daw bob dydd*
*Ein lluniaeth a'n llawenydd.'*

*(W D Williams)*

# Gair y Gweinidog

Mae gen i atgofion da o 'Noson Tân Gwyllt'. Gan nad oedd car yn tŷ ni, fe fyddem yn dal y bws o bentref Llithfaen i ymuno â dathliadau fyddai'n cael eu trefnu gan gangen yr Urdd. Coelcerth a Thân Gwyllt, ond cyn hynny, cystadleuaeth arlunio a thaten trwy'i chroen, ac wedi'r dathlu, cerdded i dŷ taid a nain a'r meddwl a'r siarad yn llawn lliwiau a sŵn. Atgofion da!

Fe lifodd yr atgofion hynny yn ôl yn y flwyddyn 1996 a hynny wrth symud i dref Llanelli. Nid gormodiaith yw dweud y cysylltir y dref honno ag anghydffurfiaeth; roedd, ac mae, bodolaeth cymaint o gapeli'n tanlinellu hynny, ac fe'm hysbyswyd bod un o'r capeli Bedyddiedig yn dathlu dyddiad arbennig. Gadewch i mi esbonio. Yn y flwyddyn 1689 daeth 'Deddf Goddefgarwch' i fodolaeth a achosodd newid mawr ym mywyd credinwyr ein gwlad. Cyn hynny, roedd y grym a'r dylanwad i'w ddarganfod yn y traddodiad Anglicanaidd gan rwystro unrhyw ffurf wahanol o ddiffinio'r Efengyl ac yn dilyn, addoli a byw, ond bu pasio'r ddeddf yma yn gyfrwng i ganiatâu i nifer ddilyn eu cydwybod. Canlyniad hyn i gyd oedd cryfhau'r dystiolaeth anghydffurfiol ac roedd yr achos yma yn Llanelli, a sefydlwyd yn y flwyddyn 1709, yn gweld gwerth mewn cofio a dathlu'r rhyddid hwnnw'n flynyddol.

Fe fyddai'n wir dweud bod rhyddid a goddefgarwch crefydddol yn bethau mae rhywun yn eu cymryd yn ganiataol, yn aml iawn heb ystyried y cyfyngiadau hynny sy'n rhan o fywyd nifer o Gristnogion. Yr Eglwys Dan Erledigaeth, a'i haelodau'n wynebu dioddefaint dyddiol, ac eto'n esiampl i ni gyd o ran ffydd ac ymroddiad.

Mae Tachwedd y 5ed yn gyfrwng i agor ein meddyliau i stori ond hefyd dealltwriaeth. Digwyddiad hanesyddol ddaeth i fod oherwydd y tensiynau oedd yn bodoli ar y pryd rhwng y Catholigion a'r Protestaniaid, cyd-destun penodol ond hefyd sefyllfa all fodoli yn ein

bywydau yn gyffredinol ac fel Cristnogion. Mae rhagfarn ar gynnydd mewn cymdeithas, yn aml iawn oherwydd diffyg adnabyddiaeth a dealltwriaeth, ond hefyd yn ein bywydau fel pobl ffydd wrth i ni golli golwg ar y ddealltwriaeth o berthynas gymodol trwy Grist. Wrth i ni gael ein gwneud yn gyflawn yng Nghrist, fe'n gelwir i fywyd wedi ei reoli gan gariad anhunanol sydd yn arwain rhywun i geisio deall ystyr maddeuant, ynghyd â thrugaredd a goddefgarwch.

Nid ystyr goddefgarwch Cristnogol yw derbyn popeth, ond yn hytrach gweld ein gilydd trwy lygaid Crist, ac fel canlyniad, cydnabod ein gwendidau a'n methiannau ein hunain yn ogystal â gwendidau eraill. Nid ystyr goddefgarwch yw bodloni gyda phobl a sefyllfaoedd, ond yn hytrach ymateb mewn doethineb ac amynedd, sydd yn llwybrau dyddiol y mae yna wahoddiad i ni eu dilyn.

Ac felly'r alwad i sefyll i fyny, ac i brofi nerth i ddweud yn wahanol pan fo galw arnom i wneud hynny, ond ar yr un pryd i ymateb yng ngoleuni'r gwirionedd a'r cariad yna sydd o Dduw.

Fe gaiff Paul y gair olaf –
"Y mae cariad yn amyneddgar; y mae cariad yn gymwynasgar; nid yw cariad yn cenfigennu, nid yw'n ymffrostio, nid yw'n ymchwyddo. Nid yw'n gwneud dim sy'n anweddus, nid yw'n ceisio ei ddibenion ei hun, nid yw'n gwylltio, nid yw'n cadw cyfrif o gam; nid yw'n cael llawenydd mewn anghyfiawnder, ond y mae'n cydlawenhau â'r gwirionedd. Y mae'n goddef i'r eithaf, yn credu i'r eithaf, yn gobeithio i'r eithaf, yn dal ati i'r eithaf. Nid yw cariad yn darfod byth.' (Corinthiaid 13: 4-8)

Mwynhewch y Tân Gwyllt a byddwch yn ofalus!

Eifion.

# Newyddion Ebeneser

**Cofion**

Anfonwn ein cofion at ein haelodau yn Ebeneser gan gofio'n arbennig am Susan Hughes.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch brynhawn Sul, 19 Hydref. Diolch yn fawr i'r aelodau am ddod â rhoddion o ffrwythau, llysiau a blodau i addurno'r capel a'u gosod ar y bwrdd ym mlaen y capel.

**Gwasanaethau mis Tachwedd**

2 Tachwedd - Gwasanaeth Cymun am 2.15 o'r gloch

16 Tachwedd - Gwasanaeth am 2.15 o'r gloch

30 Tachwedd (Sul cyntaf yr Adfent) Gwasanaeth am 2.15

Bydd y gwasanaethau o dan arweiniad ein gweinidog, y Parchedig Eifion Roberts.

# Newyddion Capel y Morfa

**Cofion a dymuniadau gorau …**
Anfonwn ein cofion at Dolig Farrell sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar, at Mair Jones sydd wedi symud o'r ysbyty i Gartref Gofal Cwmcynfelin, a Dafydd Morgan Evans sydd wedi mynd adre ar ôl treulio cyfnod byr yng Nghartref Cwmcynfelin yn dilyn ei gyfnod yn yr ysbyty.

Anfonwn ein cofion hefyd at ein haelodau sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi gofal ac yn eu cartrefi eu hunain.

**Cydymdeimlwn yn ddwys** â Rhiannon Roberts, Hengwrt, ar farwolaeth ei mab, Meredydd, yng Nghaerdydd – brawd i Rolant.

Cydymdeimlwn â Manon Foster Evans a Geraint Phillips ar farwolaeth tad Manon, sef Mr Ray Foster Evans, taid i Siôn, Iestyn, Mabon ac Owain.

Cydymdeimlwn hefyd â Dilys Milden ar farwolaeth ei chyfnither, Delyth Jones, mewn cartref gofal yn Rhuthun.

**Llongyfarchiadau mawr** …
i Alun a Mary Morris ar enedigaeth gor-wyres i Alun, sef Margot Rose, merch i Rhob a Kara ac wyres i Lowri.

Llongyfarchiadau hefyd i Ieuan ac Eluned Jones ar enedigaeth dwy or-wyres yn ddiweddar, sef Efa Fflur, merch i Mark a Gwawr a chwaer i Eiry Lois, a Carys Medi, merch i Dylan a Mia.

Llongyfarchiadau calonnog i Ann Jones, sydd wedi gofalu am yr ardd y tu ôl i Lys yr Hen Ysgol ac wedi ennill y wobr gyntaf am ei gwaith yn yr ardd mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Gwmni Barcud ar gyfer eu safleoedd preswyl yn Siroedd Powys a Cheredigion.

# Cymdeithas y Morfa fis Hydref 2025

## Dod i adnabod mam a merch

Grym geiriau a gwreiddiau oedd yn amlwg yn ail noson y gymdeithas wrth i ni ddod i adnabod mam a merch – Llinos Dafis a Gwenllian Grigg – yn well. Heb os, mae Ceredigion yn hynod o bwysig i'r ddwy wrth i Llinos gael ei magu yn Bow Street a Gwenllian yn Nhalgarreg. Ond efallai bod magwraeth Llinos rai degawdau cyn ei merch yn fwy cosmopolitan nag un Gwenllian – roedd cyfle gan Llinos i ddal bws i Aberystwyth a mynd i'r sinema ond doedd dim cyfleusterau felly yn

Nhalgarreg ac felly crwydro'r caeau gyda'i ffrindiau fu Gwenllian, ac roedd mynd i'r ysgol uwchradd yn Aberaeron yn gam go sylweddol. Gydag afiaith mae'r ddwy yn cofio eu dyddiau cynnar er, meddai Gwenllian, doedd neb yn perthyn iddi yn Nhalgarreg tra bod y plant eraill bron i gyd yn arddel ryw berthynas.



Mae'r ddwy wedi treulio oes yn gweithio ym myd geiriau – Llinos yn gyfieithydd, athrawes ac awdures a Gwenllian yn gyflwynydd bwletinau a rhaglenni newyddion BBC Cymru. Roedd yna wastad drafodaeth am iaith o amgylch y bwrdd, medd Gwenllian, boed am ei dyfodol neu am ramadeg. Mae nifer ohonom, bellach, yn cymryd yn ganiataol yr hawl i dderbyn addysg a gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ond nid felly oedd hi yn nyddiau ieuenctid Llinos ac yn ystod y sgwrsio cawsom wybod mwy am ei rhan ym mhrotest Pont Trefechan.

Pan yn ifanc roedd mam Llinos yn hoff iawn o adrodd barddoniaeth iddi – gwaith T Gwynn Jones yn bennaf a does ryfedd felly bod Llinos wedi dotio ar waith y bardd ac yn gallu adrodd llinellau, rif y gwlith, o'i waith. Rhyw saith oed oedd hi pan fu farw T Gwynn Jones ond mae'n cofio amdano'n dda a gwefr iddi oedd cael byw, yn nyddiau ei hieuenctid, yn Hafan – cyn-gartref y bardd yn Bow Street.

Yn sgil ei gwaith mae Gwenllian wedi delio â sawl stori – mae'n cofio'n iawn bod yn yr ystafell newyddion yng Nghaerdydd adeg 9/11, adeg clwy'r traed a'r genau a chyfnod rhyfedd Covid pan bu'n rhaid iddi, yn sydyn, ddarlledu o'i chartref. Anodd yn aml yw dod i adnabod cyflwynydd radio ond yn ystod y nos cawsom olwg ar ei gwaith celf arbennig. Mae hi wrth ei bodd yn llythrennu a gwneud portreadau ac afraid dweud bod ei mam wedi dotio gyda'i phortread godidog o

T Gwynn Jones. Cawsom hefyd flas o'i blwyddyn gyda'r Urdd yn Slofenia wedi rhyfel Bosnia a phwysigrwydd y cyfnod hwnnw iddi.






John Roberts fu'n llywio'r noson a braf oedd dod i adnabod y fam a'r ferch yn well – dwy na chlywch chi byth yn canu clodydd eu hunain ond dwy y mae gwerthoedd cymdeithas wâr, yr iaith a'u treftadaeth yn hynod o bwysig iddyn nhw.

Diolch i Eleri am gyflwyno'r myfyrdod, i'r cadeirydd Menai am gyflwyno'r ddwy, i Dewi Hughes am ddiolch ac i Gwenan a Gwerfyl am y baned.

# Diolch, diolch yw ein cân

Roedd y byrddau yn llawn danteithion yn noson ddiolchgarwch Cymdeithas y Morfa, nos Lun 20 Hydref. Pwrpasol felly oedd neges agoriadol y gwestai Arfon Jones sef ein hanallu i ddiolch digon ac fe'n heriodd i gofio am y rhai a oedd yn dychwelyd i Gaza i lymder llwyr. Ie, fel y soniodd Menai wrth ei gyflwyno, Mistar Beibl.net oedd y gwestai a braf oedd cael cwmni yr un sydd wedi treulio blynyddoedd lawer yn llafurio i sicrhau bod y Beibl yn ddarllenadwy i gynulleidfa newydd. Nid

addasu Cymraeg Beiblau blaenorol y mae Arfon wedi'i wneud, er ei fod wedi astudio'r rheiny yn helaeth hefyd, ond mae e fel ysgolheigion o'i flaen wedi mynd yn ôl at Hebraeg yr Hen Destament a Groeg y Testament Newydd. Ar un adeg roedd e'n ymuno â seminar Hebraeg bob bore Llun! Y llynedd cafodd ei gydnabod â gradd doethuriaeth gan Brifysgol Bangor am ei waith clodwiw.




Mae'r Beibl wedi bod yn hynod bwysig i Arfon ers ei blentyndod cynnar yn Llangwm a Llanrhaeadr yn Nyffryn Clwyd. Mae'n cofio'n dda am ddysgu adnodau ar nos Sadwrn ac yn trysori'r Beibl a gafodd gan ei rieni pan yn gadael cartref yn 18 oed. Yn ystod ei ddyddiau coleg bu'n gwerthu fersiynau newydd o'r Testament Newydd ym Mangor, ac wedi ei benodi yn weithiwr ieuenctid i'r Annibynwyr yn ddiweddarach, cam naturiol, mae'n sicr, oedd sicrhau bod pobl ifanc yn deall y Beibl. Wrth gyfieithu, y nod, meddai Arfon, oedd sicrhau bod iaith y Beibl yn ddealladwy i bobl ifanc, i bobl heb gefndir capel ac i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg. Mae arolwg diweddar, ymhlith y bobl sy'n mynd i addoldai, yn dangos bod mwy o bobl ifanc yn darllen y Beibl yn eu hamser hamdden na phobl hŷn ac, heb os, mae gwaith cymwynaswyr fel Arfon yn rhannol gyfrifol am hynny. Yn ystod y sgwrs, bu Arfon hefyd yn dangos nifer o gartwnau sy'n adnoddau ychwanegol i Beibl.net ac fe'n cyflwynwyd hefyd i'r Ap Beibl. Mae Ap Beibl yn ap y medrir ei lawrlwytho ac mae'n cynnwys pob fersiwn o'r Beibl – er enghraifft os yn darllen Beibl.net ac yn

meddwl beth oedd yr adnod yn fersiwn William Morgan neu William Salesbury mae'r union wybodaeth ar yr ap. Yno hefyd mae fersiynau llai cyfarwydd – yn eu plith cyfieithiad Urdd y Graddedigion, cyfieithiad Briscoe 1853-94 (doedd Arfon ddim yn ffafrio hwnnw!), fersiwn Gwynn ap Gwilym o'r Salmau Cân a Detholiad o'r Salmau 1936 gan Lewis Valentine. Mae'r Ap Beibl ar gael mewn sawl iaith – a thrwy'r byd y fersiwn Gymraeg sydd â'r ail nifer fwyaf o adnoddau. Camp yn wir!

Ar y Beibl a gafodd Arfon pan yn 18 oed, roedd ei rieni wedi ysgrifennu'r geiriau "Gwae inni wybod y geiriau heb adnabod y Gair", ac yn sŵn y neges honno y daeth y noson i ben. Diolch o galon i Arfon am ddod atom yr holl ffordd o Gaerdydd ac am ei neges bwrpasol yn nhymor diolchgarwch. Diolch hefyd i bawb fu'n paratoi'r wledd a chlirio. Eifion a ddiolchodd yn swyddogol i Arfon ac roedd ganddo un cwestiwn sef a fydd fersiwn arall o'r Beibl yn fuan wrth i iaith bobl ifanc newid. Wel tybed wir?

**COFIWCH AM** gyfarfodydd nesaf y Gymdeithas:
3 Tachwedd – **Gweision Fferm a Mwy**, gyda Tegwen Morris
17 Tachwedd – **Dod â Theclyn/Llun**. Bydd aelodau o'r Gymdeithas yn rhannu atgof am declyn neu lun o bwys.
8 Rhagfyr – **Dathlu'r Nadolig yng nghmwni Triawd Rhydlwyd**

# Cinio Bara a Chaws

Cynhelir Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol yng **Nghanolfan Byddin yr Iachawdwriaeth**, ddydd Llun, 3 Tachwedd rhwng 12.00 a 1.30pm.
**Croeso cynnes i bawb!**

# Y Clwb Sul



Yn ystod mis Hydref, buom yn parhau â'r thema Gweddi, gan ddilyn hanes tröedigaeth Paul a'i waith yn lledaenu'r neges am Iesu Grist ar ei deithiau gyda'i gyfeillion. Un ohonynt oedd Silas. Tra roedd Paul a Silas yn y carchar, buont yn gweddïo ac yn canu mawl a gofyn i Dduw am gymorth. Daeth daeargryn, agorodd drysau'r carchar a thorrodd y cadwyni. Mawr oedd eu diolch a'u moliant i Dduw am eu rhyddhau o'r carchar.

Wrth baratoi at y Gwasanaeth Diolchgarwch ar 19 Hydref, bu'r ieuenctid yn creu posteri gan gyflwyno'r gair Diolch mewn amryw o ieithoedd gwahanol. Bu'r plant iau yn paentio ac argraffu dail yr Hydref ar gyfer y dorch diolchgarwch.

Thema'r gwasanaeth oedd Diolch a Rhannu ac roedd yn seiliedig ar bedair agwedd o weddi a'r storïau sy'n gysylltiedig â hwy: gweddi o ddiolch; stori'r Deg Dyn Gwahanglwyfus; gweddi i ddweud Mae'n Ddrwg Gen I; Hanes Tröedigaeth Saul a ddilynwyd gan faddeuant, dechrau newydd ac enw newydd; gweddi i ofyn am gymorth a hanes Paul a Silas yn y carchar.











Mae gweddi dros eraill yn hanfodol, a chafwyd cyfle i weddïo dros waith y Banc Bwyd, pobl yr ydym yn eu hadnabod sydd yn wynebu amser anodd, a sefyllfaoedd o ddioddefaint a thrais yn ein byd. Un o'r gwledydd hynny yw Manipur yn yr India sydd wedi'i dewis ar gyfer Apêl y Llywydd, Aneurin Owen, eleni. Gwelwyd ffilm yn dangos yr eglwysi yn rhoi dyrnaid o reis o'r neilltu ar gyfer yr Eglwys, reis sy'n cael ei gasglu, ei bwyso a'i bacio, a'i werthu'n rhad i'r aelodau a'r arian yn mynd tuag at waith cenhadol yr eglwysi.

Miss Gwen Rees Roberts feddyliodd am y syniad yma. Bu’n genhades am flynyddoedd ar y Maes Cenhadol cyn dychwelyd i fyw yng Ngholeg y Bala. Nid reis a ofynnwyd i’r plant roi o’r neilltu eleni ond unrhyw newid mân, a’i roi adeg pryd o fwyd gyda’r teulu mewn pot iogwrt. Daeth casgliad y potiau iogwrt tuag at Manipur yn £30.

Diolch i bawb am eu haelioni yn cyfrannu rhoddion diolchgarwch ar gyfer aelodau yn eu cartrefi, rhoddion i’r Banc Bwyd a’r casgliad tuag at Manipur a’r Banc Bwyd.

Mae geiriau’r ddau emyn a ganwyd gan y plant yn werth eu cofio bob dydd:
“Gweddi sydd fel codi’r ffôn, defnyddia ef bob dydd”
a
“Cofia bob amser, paid ag anghofio dweud DIOLCH”.



# Y Tŷ â'r Nenfwd Awyr

(Addasiad gan Rocet o erthygl gan Avi Reichental, diwydiannwr, entrepreneur ac ymgynghorydd sy'n arwain cwmnïau rhyngwladol drwy drawsnewidiadau technolegol parhaus.)

Yr wythnos hon, rwyf, fel Iddew, yn adeiladu tŷ gyda drws agored a nenfwd y gallaf weld drwyddo. Dyna orchymyn canolog *Sukkot*: gadael cadernid fy nghartref, y waliau cryf a'r drysau cloëdig, a symud i'r *sukkah* – cwt dros dro. Mae'r waliau'n ysgwyd yn y gwynt, ac mae'r to o ganghennau'n gadael i'r glaw a'r sêr ddod i mewn. Yn y byd modern, lle mae pawb yn addoli'r parhaol a'r cadarn, mae hyn yn teimlo'n weithred radical. Rwy'n treulio fy mywyd yn adeiladu caerau: gyrfa gadarn, cronfa ymddeol, barn gref, hunaniaeth ddiymwad. Rwy'n ceisio selio'r craciau gyda sicrwydd, adeiladu toeau o ddata a dogma i gadw'r ansicrwydd allan.

Ond mae'r *sukkah*'n fy nysgu am bŵer ysbrydol y pethau bregus. Nid er gwaethaf y breuder y daw'r fendith, ond oherwydd y breuder hwnnw. Edrychaf ar y byd o'm cwmpas – y ddaear yn ansefydlog, yr hinsawdd yn newid, y dirwedd wleidyddol yn gryndod, y ffabrig cymdeithasol yn denau. Rwy'n byw mewn cyflwr o ansicrwydd dwfn, yn teimlo'r gwynt ac yn gweld y sêr trwy'r craciau yn fy nghynlluniau. Rwy'n sylweddoli fy mod, fel pawb, eisoes yn y *sukkah*.

Athrylith y Torah yw ei fod yn fy ngorchymyn i wneud yn fwriadol, yr hyn y bydd bywyd yn ei orfodi arnaf beth bynnag. Nid yn unig wyf i fod i ddioddef ansicrwydd, ond i'w wahodd i mewn, i breswylio gydag ef, hyd yn oed i'w ddathlu. Am wythnos, rwy'n rhoi'r gorau i esgus bod gennyf do cadarn uwchben fy mhen, ac yn eistedd yng ngwirionedd fy nghyflwr: bod pob diogelwch dros dro, bod pob strwythur yn amodol, mai newid yw'r unig beth cyson.

Ond yr hyn sy'n annisgwyl efallai yw, fy mod yn addurno'r *sukkah*, yn hongian ffrwythau a blodau, yn dod â'm llestri bwrdd gorau i'r gofod

dros dro hwn. Rwy'n rhannu prydau, chwerthin a gwin o dan yr awyr fregus. Dyma'r weithred eithaf o ffydd – nid mewn duwdod a fydd yn fy achub rhag y storm, ond ffydd yn y foment ei hun, ac yn fy ngallu i ddod o hyd i lawenydd ac ystyr ynghanol ansicrwydd. Rwy'n ysgwyd y pedwar math o goeden i bob cyfeiriad, yn cofio bod ein cryfder nid yn y waliau, ond yn y gymuned. Pan fo'r strwythur yn fregus, y clymau rhyngom ni yw'r lloches wirioneddol.

Felly, pan fydd fy mywyd yn teimlo'n ansicr, rwy'n edrych i fyny, yn gweld y sêr, ac yn rhannu'r hyn sydd gennyf gyda'r rhai o'm cwmpas – gan wybod mai mewn cymuned agored y ceir heddwch gwirioneddol.

**Noson gyda Steve Eaves a Rhai Pobl**
**nos Sadwrn 31 Ionawr, 2026**
**Canolfan Arad Goch 7.30yh**

**Yr elw i gyd at**
**Gymorth Meddygol i Balesteiniaid / MAP**



Tocynnau: £15
i'w cael o Arad Goch, Siop Inc,
neu gan Gwenan Creunant

# Gŵyl Cerdd Dant Aberystwyth a'r Fro 2025

## **Cywydd Croeso 2025 (**Huw Meirion Edwards)

Ni bu Dachwedd heb duchan
Oer y gwynt yn mygu'r gân;
Ni bu hirlwm heb erlid
Gemau lliw gan gwmwl llid;
Heb awen, ni bu aeaf
Na ddaeth â hiraeth am haf.

Ni bu Aber nas heriwyd
Gan dwrw'r penllanw llwyd
Yn boddi'r tir, fesul ton
Farus, a'r dyddiau'n fyrion,
A stormydd newydd yn hel
Yn gerrynt dros y gorwel.

Ond daw'r awen eleni,
Bwrw'n ôl wna'n Haber ni.
A down, un haid ohonom,
Parhawn, fel drudwns y Prom,
Â hud y ddawns, doed a ddêl,
A hi'n Dachwedd, rhaid dychwel –

Troi'r rhod â thafod a thant,
Ac i felys gyfeiliant
Neuadd lawn, fe gawn i gyd
Ailfeddu'r hen gelfyddyd.
Trown Dachwedd yn rhyfeddod
Hirddydd haf – mae'r Ŵyl ar ddod!

Croeso i Blas-crug ac i Benweddig, ac i Ŵyl Cerdd Dant Aberystwyth a'r Fro 2025. Brawddeg syml. Ond eleni, mae'n epig, gan fod trefniadau'r Ŵyl wedi newid yn sylweddol ar y funud olaf. Buom yn cydweithio'n hapus gyda swyddogion Ysgol Penglais am fisoedd i wireddu'r freuddwyd o gynnal yr Ŵyl yno, ond bu'n rhaid newid cyfeiriad ar frys oherwydd cyfyngiadau Iechyd a Diogelwch. Diolchwn i Brif Swyddogion Cyngor Sir Ceredigion, penaethiaid Penweddig a'r Ganolfan Hamdden am gynnig cartref i'r Ŵyl gyda dim ond chwech wythnos i fynd. Roedd y Cyngor eisoes wedi cynnig nawdd hael drwy gronfa Cynnal y Cardi, ond roedd eu cymwynas yn cynnig cartref yn fwy gwerthfawr byth.

Cyngor Tref Aberystwyth ac Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen oedd y cyntaf i gynnig cefnogaeth ariannol sylweddol. Mae'n amlwg bod y dref wedi elwa o bresenoldeb yr Ŵyl, gan fod llety yn brin.

Wrth fwynhau’r Ŵyl y llynedd yn yr Wyddgrug, roedd trefniadau’r criw yn llenwi rhywun â balchder ac ofn, gan wybod bod rhaid i ni gyflawni camp debyg eleni. Bellach, wrth sgwennu hyn, mae’r dyddiad cau wedi bod, y niferoedd yn iach, ac mae’n argoeli i fod yn Ŵyl arbennig. Mae wedi bod yn bleser gweithio gyda thîm ymroddgar a hwyliog, ac rwy’n hyderus y bydd popeth yn mynd yn esmwyth.




Fe fyddwch wedi gweld y tlysau bendigedig, gyda diolch i Matthew Peter Jones o Goleg Ceredigion am ei gynllun, y gorau o 16 a gyflwynwyd gan ysgolion a cholegau lleol. Gobeithio y bydd gwaddol i’r Ŵyl, ac rydym yn falch o adfer yr Adran Lên, gyda chynlluniau ar y gweill i gynnal Gŵyl Werin y Bont yr haf nesaf eto. Cofiwch alw heibio.

Byddwn yn cofio’r Cyngerdd Cyhoeddi a’r Cantata Cerdd Dant dan arweiniad Bethan Bryn a’i chyfeillion. Daeth llawer i weld detholiad o wisgoedd y corau o’r Eisteddfod, a’u gweld eto yn Theatr Arad Goch cyn yr Ŵyl. Yn bennaf, bydd yr Ŵyl yn cael ei chofio am y cystadlu, nifer a safon y corau, a’r telynau, yn arbennig.

Diolch i aelodau Capel y Morfa a’r Morlan am eu haelioni yn caniatáu i’r Ŵyl gyfarfod ac ymarfer yn y Ganolfan a’r festri. Diolch o galon i chi i gyd am bob cefnogaeth.

Rocet
(Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Gŵyl Cerdd Dant 2025)

Ac mae’r darn ar gyfer y Corau Cerdd Dant eleni – gyda mwy o gorau nag erioed wedi cofrestru i gystadlu – wedi ei gomisiynu’n arbennig i goffáu dau fu mor annwyl i ni yng Nghapel y Morfa ac a roddodd gymaint i Gymru ac i fyd canu gwerin, sef Merêd a Phyllis. Diolch i Eurig Salisbury am gyfansoddi cerdd mor wych i’w cofio.

## Merêd a Phyllis




Gorau gŵyl, gair ac alaw,
Awen a llais law yn llaw,
A gorau dau ym mhob dull,
Dau ganwr yn cydgynnull,
Dau lawlaw â'r alawon,
Cynheiliaid enaid y dôn.

Yn chwarel cainc a thelyn,
Cloddient â'u talent cytûn,
Tynnu o greigiau'r geiriau gynt,
Cael awen hen ohonynt,
A rhofient i'w rhoi hefyd
Yn aur byw i Gymru a'r byd.

Yr un, ym mwthyn Bryn Mair – neu firi
    Boston fawr, fu'r cywair,
  Rhoddent linell o gellwair
  I sêr ffilm a seiri ffair!

Ac yn eu co' roedd storws
I'r un a ganai'n eu drws,
Câi hen groeso'r cyngor call,
Rhan y ddau o'r hen ddeall;
Rhannent a glywent heb glo,
A chlywn eu hymchwil heno.

Bydd byw fel newydd eu hen, hen ruddin
Tra cân deg agos, tra cnwd ac egin,
Tra rhoir rhyw werth ar wylo a chwerthin,
Tân at y gaeaf, sŵn tant ac ewin,
Tra henddysg grefftus, tra sgrin – i'w gwylied,
Tra lôn agored, tra alawon gwerin.

Eurig Salisbury

# CYNRYCHIOLI CYMRU YNG NGHWPAN Y BYD




Yr wythnos hon bydd Lowri Gwilym (chwaer Nest) yn cynrychioli tîm 50au Cymru yng Nghwpan Pêl-droed Cerdded Cenhedloedd y Byd yn Sbaen. Ydech chi wedi clywed am bêl-droed cerdded? Mae'n debyg iawn i bêl-droed arferol, ond nad oes modd rhedeg na thaclo o'r ochr a'r cefn. Chwech o chwaraewyr sydd ar y cae gan bob tîm ar yr un pryd. Mae gan Gymru dîm 40au a 60au yn y gystadleuaeth hefyd.

Dywedodd Lowri, sy'n chwarae i dîm Caerdydd yng Nghynghrair Cymru, y bydd cael y profiad a'r cyfle i chwarae ar y lefel uchaf yn "fraint anhygoel" a bydd yn cael y fraint o gario'r fflag yn seremoni agoriadol y 50au hefyd. 'Cymru Amdani Hi' yw enw'r tîm, a sefydlwyd ddwy flynedd yn ôl gyda'r pwyslais o roi cyfle i bawb, mae'n rhywbeth cynhwysol iawn. Mae rhai o'r merched wedi chwarae o'r blaen, ond eraill heb wneud hynny. "Mae o'n fwy na phêl-droed, mae o'n rhwydwaith cymdeithasol cefnogol."

Dywedodd Lowri mai prin oedd y cyfleoedd iddi chwarae pêl-droed fel merch ifanc yng Nghymru. "Mi o ni'n chwarae pêl-droed efo'r bechgyn yn Llanuwchllyn ar gae Ysgol O M Edwards bob dydd Sadwrn. Ond yn anffodus, doedd na ddim cyfleoedd i fi ar ôl troi yn 13/14 oed – doedd na ddim strwythur oed merched i gael yn y cyfnod hwnnw. Nes i ddim chwarae wedyn tan mynd i'r Brifysgol yn Aberystwyth. Ailddechrau chwarae yn 18 oed a dwi wedi bod yn chwarae am dipyn o gyfnodau i dimau gwahanol ers hynny. Mae'n chwaraeon poblogaidd iawn ar y funud, mae'n tyfu'n sydyn, ac mae yna dipyn o gyfleoedd i noddi a chodi proffil y gêm."





# Gweddi ar gyfer
# Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol
# gyda phwyslais arbennig ar
# Weriniaeth Ddemocrataidd Congo



Dduw cariad a chyfiawnder,
A anwyd i gwpwl ar y cyrion, a orfodwyd i symud o le i le;
Duw a wnaed yn gnawd, a roddwyd i orwedd mewn preseb,
Cyhoeddwyd dy ddyfodiad o'r nefoedd i'r bugeiliaid yn y meysydd.
Dduw Ymgnawdoledig,
Rydym yn rhyfeddu at y modd yr wyt yn ymddangos
Mewn mannau annisgwyl;
Yn ein dathliadau, helpa ni i gofio ein cymdogion,
Ar ochr arall y stryd, ac ar draws y byd.
Bydd yn bresennol gyda'r sawl
sy'n dyheu am ac sy'n gweithio am
Fywyd llawn, heb dlodi.

Gwna ni'n ddiamynedd yn ein hymdrechion dros gyfiawnder
A dyro inni amynedd wrth inni garu ein gilydd.

Amen

***************

Golygyddion y rhifyn hwn yw Gwenan a Nest. Golygyddion rhifyn Rhagfyr 2025 / Ionawr 2026 fydd Sara a John. Deunydd i'w hanfon iddynt erbyn 21 Tachwedd fan bellaf os gwelwch yn dda: johnminyfron@hotmail.co.uk / sarahminyfron@hotmail.com

## SULIAU TACHWEDD 2025

**Blaenor y mis: Menai Lloyd Williams**

2 Tachwedd – Eifion Roberts (Cymun)
9 Tachwedd – John Tudno Williams
16 Tachwedd – Eifion Roberts
23 Tachwedd – Huw Roderick
30 Tachwedd – Eifion Roberts

**Blodau – Tachwedd 2025**
2 Tachwedd – Mona Bowen
9 Tachwedd – Gwyneth Clwyd a Carys Davies (cyfraniad at elusen)
16 Tachwedd – Teulu'r Richmond
23 Tachwedd – Robin Huw Bowen
30 Tachwedd – Mary Jones Morris

## Cymdeithas Gweddi a Choffi

Am yn ail fore Mawrth am 10.30 o'r gloch yn Festri'r Morfa,
ac ar Zoom am 11.00

## Astudiaeth Ffydd a Phaned

Am yn ail brynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom

Ceir mwy o wybodaeth am y cyfarfodydd gan Eifion Roberts. Mae croeso cynnes i unrhyw un sy'n dymuno ymuno â'r cyfarfodydd yma.